WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru a PricewaterhouseCoopers ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyflwyno'r darlun hwnnw a byddwn yn llunio adroddiad bob blwyddyn i roi gwybod i chi pa gynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) wedi ei wneud. Nid ydym wedi rhoi sylw i holl wasanaethau'r Cyngor. Rydym wedi canolbwyntio ar y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi'u pennu fel ei flaenoriaethau ar gyfer gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn, Alastair McQuaid a Nick Selwyn, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pa fath o ardal yw Caerffili? | 04 |
| A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei reoli'n dda? | 05 |
| A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella? | 09 |
| A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwasanaethu pobl yn dda? | 13 |
| A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi pobl mewn angen? | 15 |
| A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn helpu pobl i ddatblygu? | 23 |
| A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo? | 25 |
| Beth ddylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei wneud? | 29 |


**Atodiadau**


| | |
|---|---|
| Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn | 31 |
| Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 33 |
| Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol | 35 |
| Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 36 |
| Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 38 |
| Atodiad 6 - Cyfeiriadau | 39 |

# Pa fath o ardal yw Caerffili?

1 Mae llawer o sefydliadau yn paratoi ystadegau am Gaerffili. Rydym wedi defnyddio'r rhain i nodi rhai o brif nodweddion Caerffili, ynghyd â rhai o'r heriau sy'n ei wynebu[1].

2 Mae ardal ddaearyddol Caerffili yn cwmpasu 278 $km^2$, a dyma'r seithfed awdurdod lleol lleiaf o ran maint yng Nghymru. Mae'n cynnwys 1.3 y cant o arwynebedd tir Cymru. Caerffili yw'r brif dref. Ymhlith trefi eraill y sir mae Bedwas, Rhisga, Ystradmynach, Nelson, Trecelyn, Coed-duon, Bargod, Tredegar Newydd a Rhymni.

3 Yn seiliedig ar yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009), mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Gaerffili boblogaeth o 172,737, a dyma'r pumed cyngor mwyaf poblog yng Nghymru. Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn o broffil oedran poblogaeth Caerffili yn dangos bod 34,032 o blant (0-16 oed) yn byw yn y sir yn 2009, a 28,392 o bobl dros 65 oed. Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol wedi'u seilio ar 2008 yn dangos y bydd poblogaeth Caerffili yn cynyddu i 181,935 erbyn 2033.

geographical area
278 $km^2$
/////////////

poblogaeth
172,737
/////////////

34,032 yn 0 -16 oed
28,392 yn >65 oed
/////////////

1 Am fwy o wybodaeth am ardal Caerffili, gweler Atodiad 2.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei reoli'n dda?

4 Ym mis Awst llynedd, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad Asesiad Corfforaethol ar drefniadaeth a rheolaeth y Cyngor. Cyflwynir ein casgliadau yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr Asesiad Corfforaethol yn llawn, ewch i wefan y Cyngor neu wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

5 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn adeiladu ar drefniadau sy'n gyffredinol gadarn ac yn cydnabod bod angen cryfhau ei gynlluniau a'i berfformiad mewn rhai meysydd allweddol i ateb yr her o sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

6 Mae gan y Cyngor hanes llwyddiannus o wella gwasanaethau, er nad yw'r rhain wedi eu gwneud yn gyflym bob amser. Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda, mae'n rheoli'i gyllidebau yn dda ac yn gweithio'n dda gyda chyrff eraill y sector cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn gwybod bod angen iddo wneud arbedion yn ystod y dirwasgiad, ac mae wrthi'n gweithio arnynt ar hyn o bryd. Mae angen gwella agweddau ar sut mae'n datblygu ei gynlluniau ac yn rheoli'r broses o'u cyflwyno, a hefyd gwella'r modd y mae'n defnyddio'i staff, yn rheoli'u gwaith, ac yn defnyddio'i adeiladau i gyflwyno gwasanaethau.

7 Pan gyhoeddwyd ein hadroddiad Asesiad Corfforaethol, roedd Prif Weithredwr y Cyngor wedi cyhoeddi ei fod yn ymddiswyddo. Ar ôl penodi Prif Weithredwr newydd, sef penodiad mewnol, aeth y Cyngor ati i ailstrwythuro rhywfaint. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i ail-ddynodi'n Ddirprwy Brif Weithredwr gyda phortffolio ehangach o gyfrifoldebau. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys y ddau swyddog hyn a Chyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae swydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd wedi'i dileu o'r sefydliad, gyda'r Prif Weithredwr yn dod yn rheolwr llinell ar y Gwasanaethau Amgylcheddol gynt. Mae cyfrifoldebau rheoli llinell rhai Penaethiaid Gwasanaethau wedi newid rhywfaint hefyd.

8 Mae'r arian sy'n cael ei wario gan y Cyngor yn dod yn bennaf o'r llywodraeth ganolog, sy'n darparu cyllid refeniw a chyfalaf. Mae'r cyllid refeniw yn talu am wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, a'r staff a gyflogir ganddo. Defnyddir cyllid cyfalaf i dalu am bethau fel adeiladau a heolydd. Yn ogystal â'r arian gan lywodraeth ganolog, mae'r Cyngor yn codi arian trwy'r dreth gyngor a thrwy ffioedd a thaliadau. Mae hefyd yn creu incwm trwy werthu unrhyw dir ac adeiladau segur o'i eiddo.

9 Mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Cyllid refeniw yw'r arian mae cynghorau'n ei wario ar gynnal a rheoli'u gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn cael oddeutu £4.524 miliwn (1.7 y cant) yn llai o arian refeniw gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2011-12. Ar ôl cynnwys pwysau costau, mae hynny'n golygu y bydd gostyngiad mewn termau real o ryw £9.135 miliwn (3.58 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y cynulliad yn dangos gostyngiadau pellach mewn termau real i gyllid refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Maent wedi'u cyfrifo i mewn i Gynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig lle bydd yn ofynnol gwneud arbedion o £17 miliwn dros gyfnod o dair blynedd.


10 Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi mynegi barn ar gyfrifon y Cyngor. Mae ei Lythyr Archwilio Blynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor, yn rhan o'r adroddiad hwn yn Atodiad 4.

11 Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb refeniw fantoledig i reoli o fewn yr arian sydd ar gael, cyn monitro'r gwariant gwirioneddol yn ei herbyn. Mae gan y Cyngor hanes llwyddiannus o reoli o fewn y gyllideb. Gan ei fod yn gwasanaethu poblogaeth gweddol fawr, mae'r cyfanswm sy'n cael ei wario ar gyflenwi gwasanaethau yn uchel o gymharu â chynghorau eraill Cymru. Gwariant refeniw'r Cyngor yn 2009-10 oedd £306.578 miliwn ac mae'n bwriadu gwario £315 miliwn yn 2010-11. Fesul pen o'r boblogaeth, fe wariodd y Cyngor £1,710 y preswylydd yn 2008-09. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o £1,677.

12 Mae'r Cyngor yn cael ei redeg yn dda yn ariannol ac mewn sefyllfa ariannol iach hyd yma, gan gynnwys lefel dda o gronfeydd wrth gefn – rhagwelir y byddant yn cynyddu o £13 miliwn i £15 miliwn yn ystod 2010-11. Mae'r rhagolygon gwario presennol o gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2010-11 yn dangos tanwariant rhagamcanol o £6.11 miliwn. Mae'r Cyngor yn adeiladu ar y sefyllfa hon wrth ddatblygu ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP). Yn ei Gynllun Ariannol ym mis Hydref 2010 rhagwelir y bydd diffyg refeniw cynyddol rhwng yr hyn mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd eisiau ei wario a'r hyn fydd ar gael erbyn 2014-15 – Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Gwariant ac incwm y gyllideb a ragwelir 2010-11 – 2014-15**

Bydd y bwlch rhwng faint mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen ei wario a lefel yr adnoddau fydd ar gael iddo yn cynyddu yn y dyfodol, oni bai y bydd yn cymryd camau i leihau gwariant.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, cyflwyniad Rhagolygon Ariannol, Hydref 2010*

13 Bydd rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â heriau sylweddol er mwyn sicrhau'r holl arbedion sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb yn y dyfodol. Y Cyngor hwn yn un o'r rhai o blith holl gynghorau Cymru sy'n dibynnu fwyaf ar grantiau'r llywodraeth fel cyfran o wariant refeniw, gyda 67.4 y cant o wariant 2008-9 yn deillio o grantiau'r llywodraeth. Y cyfartaledd Cymreig oedd 62.8 y cant. Derbyniodd y Cyngor y pedwerydd swm uchaf o incwm grant refeniw gan lywodraeth ganolog, o gymharu â chynghorau eraill Cymru, gwerth £101.96 miliwn yn 2008-09. Mae lefel yr incwm grant hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru ers 2003-04.

14 Bydd effaith gronnol y gostyngiad tebygol mewn adnoddau refeniw a nodwyd uchod, ynghyd â'r ffactorau eraill sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau fel proffil oedran hŷn y boblogaeth ac effaith gymdeithasol y dirwasgiad, yn rhoi mwy a mwy o bwysau ar gynghorau. Os bydd yr arian y mae cynghorau'n ei dderbyn gan lywodraeth ganolog yn cael ei gwtogi'n sylweddol, gallai Caerffili gael ei effeithio'n wael. Amcangyfrifir bod Cyngor Caerffili'n cyflogi tua 900 o weithwyr dan raglenni grant amrywiol Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd, a'u bod yn debygol o gael eu diswyddo neu eu hadleoli pe bai'r rhaglenni'n cael eu tocio neu ddileu'n llwyr.

15 Mae'r dreth gyngor fel cyfran o'r holl wariant refeniw ymhlith yr isaf yng Nghymru. Dim ond £52.5 miliwn, neu 17 y cant o'r gwariant refeniw, a ariennir drwy'r dreth gyngor yn 2010-11. Mae'r dreth gyngor sy'n ddyledus wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Ddiwedd Mawrth 2010, roedd £4.171 miliwn o'r dreth gyngor yn ddyledus i'r Cyngor, sef £56 yr annedd drethadwy. Roedd hyn yn llai na chyfartaledd Cymru, £62 yr annedd. Cawsom wybod gan y Cyngor iddo gynyddu ei gyfradd casglu treth gyngor i 99 y cant ar ôl cynnwys taliadau a dderbyniwyd ar ôl mis Mawrth. Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r dyledion fel ei fod yn derbyn yr holl incwm sy'n ddyledus iddo, er mwyn ategu ei benderfyniadau i leihau'r gyllideb.

16 Mae'r Cyngor eisoes wedi cychwyn sawl rhaglen o arbedion yn ystod 2010-11 i'w parhau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, er mwyn paratoi ei hun ar gyfer pwysau maes o law, gydag 80 y cant hyd yma o'r arbedion gofynnol a ragwelwyd, sef £17.3 miliwn wedi'u nodi. Mae rhai ohonynt wedi'u rhoi ar waith yn barod, fel arbed costau swyddfa a lleihau nifer y cyfarwyddwyr corfforaethol. Hefyd, bydd y Tîm Rheoli/Cabinet yn ystyried papurau polisi pellach sy'n amlinellu'r opsiynau ar gyfer sicrhau arbedion ledled y Cyngor yn y dyfodol, a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu a seminarau arbennig i'r Aelodau. Mae'r papurau hyn yn cyflwyno cyfres o opsiynau i sicrhau arbedion pellach erbyn 2013-14, ac yn ymwneud â phedwar maes gwaith yn fras:

- cyflwyno dulliau newydd o gyflenwi gwasanaethau cyfredol er mwyn gwneud arbedion a gwelliannau - er enghraifft rhannu gwasanaethau a chydweithredu â phartneriaid a chyrff sector cyhoeddus eraill (lle nodwyd gwerth am arian) a phennu ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno gwasanaethau'n rhatach;
- gwella sefyllfa ariannol y cyngor – trwy adolygu'r lefelau incwm, gweithredu strategaethau 'Buddsoddi i Arbed' sy'n cronni arbedion i'r dyfodol, cyflwyno trefniadau caffael ar y cyd a gosod lefel treth gyngor realistig dros y cyfnod hwn;
- rheoli asedau'n well - lleihau a rhesymoli portffolio asedau'r Cyngor trwy werthu/gwaredu asedau er mwyn ailfuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen; a
- gweddnewid y busnes - ailstrwythuro a rhesymoli'r gwasanaeth, ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno gwasanaethau'n rhatach, adolygu'r holl ddarpariaeth statudol a lleihau/rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau dewisol.

17 O gofio maint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, mae'n bwysig ei fod yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o sicrhau'r arbedion angenrheidiol. Yn ein

hadroddiad Asesiad Corfforaethol, nodwyd bod pleidleisiau'r Cyngor llawn yn aml yn gyfartal iawn a bod rhai o'r pwyllgorau craffu wedi'u defnyddio fel 'pêl-droed wleidyddol', sy'n llesteirio eu heffeithiolrwydd. Os yw'r Cyngor am barhau i fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r heriau anodd sy'n ei wynebu o safbwynt ariannol a gwasanaethau, mae angen iddo sicrhau bod penderfyniadau amserol a phriodol yn cael eu gwneud. Bydd angen i'r Cyngor cyfan gyfrannu at hyn, a bydd angen arweiniad gan bob gwleidydd ac uwchswyddog.

18 Y cynghorau sy'n gweinyddu budd-daliadau tai a'r dreth gyngor ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Fel arfer, mae budd-daliadau anghywir yn cael eu talu pan fo'r cyngor naill ai wedi talu gormod o fudd-dal neu os yw'r hawlydd heb ei hawlio'n briodol. Rhaid i gynghorau leihau gordaliadau cymaint â phosibl a mynd ati hefyd i gasglu dyledion mewn modd cadarn ond sensitif.

19 Cafodd systemau'r Cyngor o atal ac adfer gordaliadau eu hasesu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi llwyddo i leihau'r gordaliadau £218,000 (0.7 y cant) yn 2008-09 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, diolch i drefniadau atal boddhaol – gan ostwng gordaliadau i £2.174 miliwn. Argymhellodd yr adroddiad fod y Cyngor yn ystyried goblygiadau cadarnhaol 'gwario i fuddsoddi' trwy ddarparu gwasanaeth adfer parhaol ac mae'r Cyngor bellach wedi clustnodi staff sy'n gallu manteisio i'r eithaf ar adennill dyledion.

20 Cyllid cyfalaf yw'r arian mae cynghorau'n ei wario ar seilwaith, fel adeiladau newydd a chyfarpar newydd. Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen adnoddau cyfalaf sylweddol i wella'r seilwaith, datblygu gwasanaethau newydd ac uwchraddio cyfleusterau cyfredol. Mae wedi canfod bod gwerth £45 miliwn o waith cynnal a chadw a thrwsio ar adeiladau'r Cyngor (ac eithrio'r stoc dai a'r priffyrdd) yn aros i gael ei wneud ac mae wrthi'n cwblhau Cynllun Rheoli Asedau manwl i'w gyflwyno gerbron yr Aelodau yn ystod gaeaf 2010-11. Fe wnaeth y Cyngor fuddsoddi £25.3 miliwn mewn gwaith cyfalaf yn 2008-09 a 2009-10, er nad yw hi'n glir ar hyn o bryd beth oedd effaith hyn ar y gwaith sydd angen ei wneud.

21 Fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd, mae'r Cyngor yn paratoi cynigion a chynlluniau ar gyfer prosiectau buddsoddi cyfalaf sylweddol newydd, fel menter ysgol yr 21ain ganrif a buddsoddi mewn priffyrdd. Yn y blynyddoedd diwethaf, fel gyda chynghorau eraill ledled Cymru, mae'r Cyngor wedi derbyn llai o arian trwy werthu asedau, o ganlyniad i newid yn amodau'r farchnad gan ddisgyn o £8.506 miliwn yn 2006-07 i £3.370 miliwn yn 2008-09. Mae ganddo £9 miliwn o dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu ar hyn o bryd. Ariannodd y Cyngor £3.7 miliwn o arian cyfalaf o'i gyllideb refeniw yn 2009-10.

22 Mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn debygol o ostwng yn sylweddol. Oherwydd bod cynghorau'n gwneud cais am gyllid cyfalaf, ni wyddom yn bendant faint o arian y bydd pob cyngor yn ei dderbyn. Bydd cyfanswm y cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn gostwng 14 y cant yn 2011-12 (gostyngiad o 18.5 y cant mewn termau real). Er nad oes ffigurau swyddogol ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol ar ôl 2011-12, mae'n debygol o gyd-fynd â'r gostyngiad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a gaiff ei gwtogi tua 34 y cant (tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2014-15. Mae strategaeth gyllidebol y Cyngor ar gyfer 2011-12 hyd 2013-14 yn defnyddio cymysgedd o dderbyniadau cyfalaf, gwarged refeniw a chyfraniad refeniw i gyfalaf ac yn cynnwys y gostyngiad a ragwelir o gyllid cyfalaf a dderbynnir gan Lywodraeth y Cynulliad[2].

2 CBS Caerffili, Papur y Cabinet, Cynigion y Gyllideb 2011-12 - 2013-14 ar gyfer Ymgynghori, Ionawr 2011

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella?

## Cynllunio i wella'r pethau pwysicaf

23 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'u gwasanaethau a sut y bydd yn gwneud hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau ddangos bod yr hyn a wnânt yn adlewyrchu'r pethau mwyaf pwysig ym marn pobl leol, ac yn gwella bywydau pobl.

24 Cafodd Cynllun Gwella Corfforaethol (CIP) y Cyngor ei fabwysiadu ym mis Hydref 2010. Mae'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i'w ddinasyddion ar sail y pedwar canlyniad strategol eang a nodir yn ei Strategaeth Gymunedol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru, ac yn canolbwyntio ar:

- Adfywio
- Yr Amgylchedd Byw
- Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol
- Addysg am Oes

25 Er mwyn sicrhau bod cynghorau'n canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth i'r pethau pwysicaf i bobl leol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i gynghorau osod amcanion gwella ac adrodd ar eu llwyddiannau wedyn. Yn 2010-11, mae'r Cyngor wedi penderfynu canolbwyntio ar wyth amcan gwella. Maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Cyngor a gyflwynir yn ei Strategaeth Gymunedol, ei gynlluniau allweddol eraill fel y Strategaeth Adfywio, y Strategaeth Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Cyngor wedi penderfynu:

- gwella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â dinasyddion a gwrando ar farn cwsmeriaid am wasanaethau;
- gofalu bod Caerffili yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo;
- cynnal amrywiaeth o gyfleoedd gwaith i'r trigolion;
- gwella lefel sgiliau plant a phobl ifanc;
- hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach a gweithgar;
- sicrhau bod oedolion sydd yn y system gofal cymdeithasol yn gallu byw bywyd llawn, gweithgar ac annibynnol;
- sicrhau bod asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc; a
- lleihau'r ôl troed carbon a gwella cynaliadwyedd.

26 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Y flwyddyn nesaf, mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyhoeddi'n gynharach yn y flwyddyn. Yn y flwyddyn bontio hon, fe fabwysiadodd y Cyngor ei amcanion gwella ym mis Medi. Mae'r amcanion hyn i'w gweld yn y Cynllun Gwella Corfforaethol, a gallwch ei lawrlwytho o wefan y Cyngor neu gael copi caled ar gais. Mae'r Cynllun ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, mae'r Cynllun yn bwriadu rhannu crynodeb o'i flaenoriaethau ar gyfer gwella gyda rhanddeiliaid a dinasyddion y fwrdeistref sirol, a bydd yn eu cyhoeddi yn rhifyn yr hydref o'r papur cymunedol, Newsline.

27 Ni wnaeth y Cyngor ymgynghori'n benodol ar ei amcanion gwella, gan seilio'i wybodaeth ar waith ymgynghori cyfredol, fel ei banel safbwyntiau. Nid yw'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn dangos sut y gwnaeth yr amrywiol randdeiliaid - a argymhellwyd gan Lywodraeth y Cynulliad – gael eu cynnwys, er enghraifft, busnesau lleol ar fater cynnal amrywiaeth o gyfleoedd gwaith. Yn y dyfodol, bydd angen i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella yn gynnar yn y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau bod y dinasyddion yn deall beth yw blaenoriaethau'r Cyngor a pha fanteision y gallant eu disgwyl.

28 Rydym wedi asesu amcanion gwella'r Cyngor i weld a yw hi'n glir sut bydd pobl leol yn elwa ar y gwaith arfaethedig. Yn gyffredinol, rydym yn credu bod y Cyngor wedi mabwysiadu ffordd dda o bennu ei amcanion gwella. Mae'r Cyngor wedi dangos y cysylltiad rhwng ei amcanion gwella â'i themâu strategol. O ran pob amcan gwella, mae hefyd wedi cynnwys disgrifiad o'r hyn fydd yn gyfystyr â llwyddiant a phennu mesurau i farnu sut hwyl mae'n ei gael arni. Trwy bennu mesurau o lwyddiant, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau ei fod yn gallu dangos sut mae'r trigolion wedi elwa ar ei waith.

29 Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r holl amcanion gwella yn cynnwys datganiadau clir sy'n dangos lefel y gwelliannau maent yn gobeithio'i greu, ac mewn nifer ohonynt, mae'r systemau ar gyfer mesur cynnydd yn canolbwyntio ar fesur llwyddiant yn erbyn dangosyddion perfformiad cyfredol. Nid ydynt yn briodol bob amser gan nad yw'r cysylltiad rhwng y camau gweithredu sydd angen eu cyflwyno, y dangosyddion perfformiad a'r amcan gwella yn amlwg bob tro. Felly, ni fydd y Cyngor yn gallu gwneud asesiadau teg a chywir o'r cynnydd mewn perthynas â rhai amcanion, a sut mae pethau wedi gwella i'r bobl leol. Mae angen i'r Cyngor wella'r ffordd y mae'n bwriadu mesur ei effaith. Mae'r Cyngor yn gwneud mwy o waith o fewn y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn mireinio eu hamcanion gwella, fel eu bod yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau i'r dinasyddion, ac yn gwella'r mesurau ategol a'r wybodaeth am berfformiad yn unol â hynny.

30 Cyflwynir ein hasesiad o'r amcanion gwella unigol isod.

## Dangos sut mae pobl yn elwa ar waith y Cyngor

31 Mae gwybodaeth dda yn hanfodol i bob cyngor ynghyd â'r gallu i'w defnyddio'n dda er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Mae'r Cyngor wedi datblygu systemau da ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am berfformiad, ac mae'n ceisio eu cryfhau. Mae cardiau sgorio perfformiad ar gyfer monitro'r cynnydd yn erbyn targedau gwasanaethau unigol a'r Cynllun Gwella Corfforaethol ar waith, ynghyd â sesiynau herio perfformiad rheolaidd gydag Aelod y Cabinet dros Berfformiad, Aelodau'r Cabinet â phortffolio a Chyfarwyddwyr. Cynhelir pwyllgorau craffu ar berfformiad hefyd ddwywaith y flwyddyn ym mhob un o'r pum pwyllgor craffu.

32 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn pennu strwythur llywodraethu clir er mwyn rheoli ei amcanion gwella. Mae'r Cyngor wedi nodi unigolion i fod yn gyfrifol am bob amcan gwella, sef y Pennaeth Gwasanaeth fel arfer. Hefyd, mae aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gweithredu fel arweinwyr gwella gyda chyfrifoldeb dros gefnogi'r gwaith o gyflwyno amcanion gwella, a bod yn atebol am y gwaith hwnnw. Bydd Aelod y Cabinet dros Berfformiad yn cynnal cyfarfodydd diweddaru rheolaidd â'r hyrwyddwr a'r Aelod Cabinet priodol bob chwe mis, a bydd y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn defnyddio system Ffynnon i ystyried y diweddaraf am berfformiad.

33 Hefyd, fe wnaethom ofyn a oedd y Cyngor yn gwybod sut y byddai'n bwrw ymlaen â'i gynlluniau ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno amcanion gwella, mae'r Cyngor yn cydgysylltu'r gwaith hwn trwy gyfrwng Cynlluniau Gwella Gwasanaethau unigol.

34 Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi nodi faint o adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r amcanion gwella. Er ei fod yn sefydlu system sy'n galluogi i feysydd gwasanaeth unigol ddangos sut maent yn cyfrannu at gyflwyno a mesur amcanion gwella, nid yw ar waith eto. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio Cynlluniau Gwella Gwasanaethau i nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r amcanion gwella a chynnwys y wybodaeth hon yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

35 Gallai'r ymarfer hwn arwain at un o dair sefyllfa – cadarnhad bod digon o adnoddau i gyflwyno'r amcan gwella, bod angen adnoddau ychwanegol er mwyn helpu i gyflwyno'r amcan gwella, neu argymell 'gollwng' yr amcan gwella os nad yw'n cael ei ystyried yn bosibl i'w gyflawni mwyach. Mae'n debygol o effeithio ar allu'r Cyngor i wella mewn perthynas â rhai o'i amcanion, er enghraifft, mae'r amcan o gynnal amrywiaeth o gyfleoedd gwaith yn cynnwys llawer o brosiectau a rhaglenni gwaith sydd angen arian sylweddol. Ar hyn o bryd, felly, nid yw'n gwbl glir a fydd hi'n bosibl cyflawni'r holl amcanion gan nad yw'r Cyngor wedi gorffen asesu'r gofynion o ran adnoddau.

36 Rydym yn cydnabod y cafwyd oedi cyn gwneud penderfyniadau ar adnoddau eleni wrth aros am ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Os yw'r Cyngor am gyflwyno ei amcanion i gyd, mae angen iddo nodi pa adnoddau sydd eu hangen i wneud hynny wrth bennu'r amcanion yn hytrach na'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

37 Mae'n bwysig bod gan y Cyngor wybodaeth am y pethau cywir a bod y wybodaeth honno'n gywir hefyd. Mae'r Cyngor yn defnyddio system Ffynnon[3] i roi darlun o berfformiad gwasanaethau ac yn yr wyth mis diwethaf mae wedi cyflwyno adroddiadau eithrio i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i nodi unrhyw berfformiad sy'n dirywio neu unrhyw wasanaeth sy'n tangyflawni yn erbyn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol.

38 Nid yw'r wybodaeth am berfformiad a gesglir yn canolbwyntio ar ganlyniadau a mesurau cost uned bob amser. Er hynny, mae rhywfaint o'r wybodaeth yn dangos faint o waith mae'r Cyngor yn ei wneud yn hytrach na faint o wahaniaeth mae'n ei wneud i bobl a faint mae'n ei gostio. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor bob amser yn dangos yn glir faint o effaith mae rhai o'i wasanaethau wedi'i chael ar unigolion a chymunedau, a does dim modd gwybod a yw'n sicrhau gwerth am arian o'r herwydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gael mwy o wybodaeth ansoddol a chanlyniadau am berfformiad i fesur effaith ei wasanaethau ar ddinasyddion, yn ogystal â gwybodaeth gadarn am faint maent yn ei gostio.

39 Cafodd systemau'r Cyngor ar gyfer rheoli ac adrodd ar ei ddangosyddion perfformiad allweddol eu harchwilio gennym yn 2010. Gwelsom fod y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol – y mae gofyn i bob cyngor adrodd ar berfformiad yn eu herbyn – yn sylweddol gywir, a dim ond dau ddangosydd o blith 38 oedd angen eu hunioni. Nid oedd hyn yn newid canlyniadau'r mesurau perfformiad.

40 Rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r dangosyddion perfformiad o bosibl yn cyflwyno'r darlun cyflawn o berfformiad gwasanaethau ar hyn o bryd, na'r pwysau sy'n wynebu'r Cyngor. Er hynny, dyma un o'r ychydig ffynonellau data cymharol sydd ar gael, i'n galluogi i gymharu perfformiad cynghorau.

41 Fe wnaethom adolygu cyflwyniad tystiolaeth y Cyngor i Lywodraeth y Cynulliad er mwyn helpu i gyrraedd targedau'r Cytundeb Gwella mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Daethom i'r casgliad fod y

3 Meddalwedd a luniwyd ar lefel genedlaethol yw Ffynnon i ateb gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a'u partneriaid.

Cyngor wedi bodloni'r targedau yn y rhan fwyaf o feysydd, er bod rhai o dargedau 2009-10 eisoes wedi'u cyflawni yn ystod y blynyddoedd cynt a heb eu diweddaru i adlewyrchu'r gwelliant hwn. Mae hyn yn awgrymu nad oeddynt yn ddigon heriol.

42 Byddwn yn adolygu cynlluniau'r Cyngor wrth iddynt ddatblygu, ac yn nodi a fyddant yn cefnogi'r ymdrechion i berfformio'n well. Byddwn hefyd yn ystyried a  yw'r Cyngor wedi llwyddo i gyflwyno gwelliannau i bobl leol, yn ôl y bwriad.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwasanaethu pobl yn dda?

43 Rydym yn gobeithio defnyddio Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol i greu darlun graddol o ba mor dda mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Bob blwyddyn, byddwn yn archwilio gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd yng Nghaerffili. Credwn fod yr agweddau hyn, gyda'i gilydd, yn cynnwys y rhan fwyaf o brif swyddogaethau'r cynghorau i gyd, sef:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a braf i fyw ynddo.

44 Fel rhan o'r asesiad eleni, rydym wedi ystyried sut mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd gyda'i amcanion gwella ym mhob un o'r meysydd hyn hyd yma. Rydym yn cydnabod bod hon yn flwyddyn bontio wrth i'r Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru roi gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 ar waith yn llawn.

45 Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi darlun cyflawn o berfformiad y Cyngor ledled ei swyddogaethau a'i wasanaethau amrywiol. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y meysydd penodol y mae'r Cyngor ei hun yn dymuno'u gwella, sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hynny a sut y bydd yn atebol am ei berfformiad.


46 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod 38 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol sy'n cwmpasu pob math o wasanaethau. Yn achos y 30 o fesurau perfformiad sy'n rhoi cyfle i gymharu perfformiad dros amser, gwelwyd cynnydd bychan yn y nifer sy'n gwella ac yn dirywio - Arddangosyn 2.

47 Mae'r gostyngiad mewn arian cyhoeddus yn golygu y bydd pob cyngor yn gorfod gwneud penderfyniadau pendant ynglŷn â'i flaenoriaethau. Er mwyn symud ymlaen, rydym yn credu bod angen i'r Cyngor nodi'r safonau gofynnol y gall dinasyddion eu disgwyl gan bob gwasanaeth mewn cyfnod o gwtogi ar adnoddau. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu ei berfformiad mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, fel eu bod yn cynnal gwasanaethau o safon dderbyniol. Gall hyn olygu bod rhai meysydd yn perfformio'n salach am nad ydynt yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi. Mae angen i'r Cyngor nodi'n glir lle bydd hyn yn digwydd fel bod dinasyddion yn ymwybodol o'r effaith arnynt hwy.

48 Mae'r Cyngor yn defnyddio rhywfaint ar wybodaeth i gymharu ei berfformiad â chynghorau eraill yn barhaus. Er enghraifft, mae'n cymharu ei hun â cyfartaledd Cymru ar bob un o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yr adroddir arnynt ac yn gosod targedau ar gyfer y dyfodol. Er hynny, mae ei Gynllun Gwella Corfforaethol wedi dewis peidio â nodi'i berfformiad cyffredinol ar unrhyw ddangosydd yn erbyn cynghorau eraill na dangos sut mae ei berfformiad yn erbyn dangosyddion unigol yn datblygu dros amser. Er bod y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth gymharol yn fewnol, nid yw'r wybodaeth hon na gwybodaeth arall ar gael i'r dinasyddion bob amser fel y gallant farnu drostynt eu hunain i ba raddau mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu o gymharu â chynghorau eraill Cymru neu dros gyfnod o amser.

**Arddangosyn 2: Perfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ôl Dangosyddion Strategol Cenedlaethol 2006-07 i 2009-10**

Mae perfformiad y Cyngor wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf ond wedi dirywio i safonau 2006-07 yn 2009-10.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cynllun Gwella 2009-2012, Hydref 2010*

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi pobl mewn angen?

49 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau proffesiynol ynglŷn â gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, gan hyrwyddo gwelliant ymysg y darparwyr gwasanaethau. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd, mae fframwaith newydd ar waith ar gyfer arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, eu gwerthuso a'u hadolygu. Mae'r fframwaith yn ceisio mynd i'r afael â dau gwestiwn strategol:

- A oes trefniadau effeithiol mewn grym i ddiogelu plant ac oedolion ac i hyrwyddo eu lles a'u datblygiad, eu llais a'u hannibyniaeth, a'u cynhwysiant cymdeithasol?
- A ellir cynnal a gwella perfformiad?

50 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna, bydd AGGCC yn cynnal adolygiad a dadansoddi tystiolaeth i ategu'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, ceir arolygiad unigol a chynllun adolygu ar gyfer pob cyngor. Cyhoeddir llythyr bob blwyddyn gan yr AGGCC yn nodi'r dadansoddiad a'r cynllun arolygu ac adolygu.

51 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd gyda'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad cyfredol. Nodir yn gryno bwyntiau allweddol y llythyr a anfonwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

52 Mae'r maes Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei arwain yn effeithiol a'i reoli'n gryf ledled y gyfarwyddiaeth, mewn cyfnod o newid. Mae'r uwch dîm rheoli wedi newid, ac uwchreolwyr profiadol wedi'u penodi, gan gynnwys rhai mewn swyddi uwchreolwyr dros dro. Mae'r Cyngor wedi cadw gwasanaethau rheolwyr tîm a gwasanaeth profiadol, sy'n darparu diwylliant o wrando a dysgu sy'n agored i bawb. Mae wedi sefydlu partneriaeth ag Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion datblygu a chynllunio olyniaeth yn y tymor canolig, mewn ymateb i weithlu sy'n heneiddio. Y flaenoriaeth i'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf fydd sicrhau a chynnal gwasanaethau sy'n cynnig y gwerth gorau, gan gynnwys gwella trefniadau partneriaethau gwasanaeth a threfniadau comisiynu costeffeithiol, mewn hinsawdd ariannol fwyfwy anodd.

53 Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol a gwirfoddol. Mae gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys yr agendâu diogelu plant ac oedolion, yn cael eu cynrychioli'n dda mewn cynlluniau partneriaeth a byrddau gwasanaethau allweddol. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynnal partneriaethau gwaith da gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol mewn cyfnod o ad-drefnu sylweddol mewn gwasanaethau iechyd - mae Bwrdd Diogelu Plant cynyddol effeithiol yn brawf o hyn. Mae darparu gwasanaethau ar y cyd, fel ym maes gwasanaethau iechyd meddwl, yn elfen allweddol o wella gwasanaethau. Mae gwella gwasanaethau i bobl hŷn gan gynnwys rhai ag anawsterau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Mae'n cydweithio â phartneriaid i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau a fydd yn cynnig canlyniadau gwell i bobl Caerffili ac yn sicrhau gwerth gwell am arian.

54 Fel rhan o’r agenda hon, mae’r Cyngor wedi adolygu ei holl swyddogaethau busnes i sicrhau bod y trefniadau comisiynu’n gost-effeithiol. Mae amrywiaeth eang o strategaethau comisiynu ledled gwasanaethau cymdeithasol, gyda threfniadau monitro contractau sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae gan y Cyngor systemau rheoli ariannol datblygedig ar waith hefyd. Cafwyd cyllideb fantoledig gan y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn 2009-10.

55 Mae rheolwyr yn gyfrifol am y modd y caiff adnoddau eu rheoli. Caiff atebolrwydd ei sicrhau gan reolwyr cyllid dynodedig, ac mae adroddiadau ariannol misol yn galluogi’r Cyngor i olrhain penawdau cyllidebol allweddol gydol y flwyddyn a mynd i’r afael ag unrhyw bwysau sy’n codi o ran costau. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno arbedion cost yn unol â chyfarwyddiaethau eraill y Cyngor. Mae gan Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor agenda arbedion a chynaliadwyedd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Er hynny, mae angen gwneud mwy o waith fel y gall y Cyngor ddangos y gwahaniaeth cadarnhaol mae gwasanaethau wedi’i wneud i fywydau pobl.

56 Mae’r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wybodaeth mewn fformatau gwahanol er mwyn helpu pobl i gael gafael ar y gwasanaethau a’r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae’n cydnabod bod angen adolygu a diweddaru ei wybodaeth am wasanaethau oedolion a gwella’r wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc. Mae Tîm Dyletswydd Argyfwng (EDT) y tu allan i oriau yn cwmpasu Caerffili a’r pedwar awdurdod cyfagos, ac yn cynnig cymorth cyfreithiol 24 awr y dydd ar faterion gofal plant. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau penderfyniadau amserol ac yn cynnig cymorth sy’n helpu i wella canlyniadau i bobl agored i niwed.

57 Mae gwybodaeth dda am reoli perfformiad ledled y maes gwasanaethau cymdeithasol, ac mae’n cael ei defnyddio’n effeithiol i nodi a datrys unrhyw anawsterau. Mae gan wasanaethau gymysgedd o weithwyr medrus a phrofiadol a rhai newydd gymhwyso, ac mae’r Cyngor wedi llwyddo i lenwi’r holl swyddi rheolwyr yn y tîm gwasanaethau plant. Fodd bynnag, mae angen penodi staff cymwysedig parhaol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, ac ar gyfer rhai rhannau o wasanaethau plant hefyd.

58 Mae’r Cyngor yn cynorthwyo gyda datblygu’r gweithlu ledled gwasanaethau plant ac oedolion. Mae Cynllun Datblygu’r Gweithlu, a baratowyd ar y cyd â’i asiantaethau partner, ar waith ers mis Mawrth 2010, ac mae’n cyflwyno dull strategol o sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol medrus ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae’r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu dull strategol o reoli a lleihau absenoldeb oherwydd salwch, gyda’r rheolwyr yn cael hyfforddiant a chymorth ychwanegol gan yr adran Adnoddau Dynol. Mae cyfraddau absenoldeb ledled y Cyngor wedi gostwng yn sgil hyn. Mae’r Cyngor wedi gweithio’n galed i sefydlu’r arfer o ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad ar lefel tîm er mwyn gwella arferion a sicrhau mwy o gysondeb rhwng cynlluniau busnes y timau, gwasanaethau ac adrannau.

59 Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli ymholiadau gan aelodau’r cyhoedd ac asiantaethau partner. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol drefniadau atgyfeirio a mynediad penodol ar gyfer plant ac oedolion, gan gynnwys tîm Mynediad Cyntaf ar y Cyd i bobl ag anawsterau iechyd meddwl, a llinell gymorth mewn argyfwng ar gyfer cynhalwyr maeth i’w helpu wrth eu gwaith. Mae’r Siop Un Stop, canolfan amlasiantaeth a gomisiynwyd ar y cyd ar gyfer rhieni a phlant sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig, wedi arwain at drefniadau gweithio mewn partneriaeth gwell a chanlyniadau gwell.

60 Mae'r gefnogaeth gorfforaethol i wasanaethau cymdeithasol yn parhau, ac mae tystiolaeth o arolygiadau diweddar AGGCC yn dangos bod y gorfforaeth a'r cyngor cyfan yn ymwneud â'r agenda gofal cymdeithasol. Mae cefnogaeth drawsbleidiol i wasanaethau cymdeithasol, gyda'r uwch-reolwyr yn hyrwyddo gwella gwasanaethau i blant, eu teuluoedd a phobl hŷn. Er bod trefniadau'r pwyllgor craffu wedi'u datblygu'n dda, mae'r pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio fwyfwy ar ansawdd y gwasanaeth a sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Amcan gwella – Gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â'n dinasyddion a gwrando ar farn cwsmeriaid am ein gwasanaethau ni

61 Mae cysylltiad amlwg rhwng yr amcan gwella hwn â blaenoriaeth y Cyngor o Adeiladu Gwasanaethau Cyhoeddus Gwell, ac mae hefyd yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar wella'r gwasanaeth sydd ar gael ac arloesi. Mae'r Cyngor wedi pennu cyfres o gamau gweithredu i'w cwblhau yn 2010-11. Maent yn nodi unrhyw wendidau o ran darparu gwasanaethau ar hyn o bryd a beth sydd angen ei wella, ac yn ymwneud â thri maes gwaith yn fras:

- gwella a lleihau cwynion;
- canfod beth sydd ei angen ar ddinasyddion a chyflwyno hynny; a
- gwella'r llif gwybodaeth a lleihau costau.

62 Ar ôl adolygu'r camau arfaethedig, daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn canolbwyntio ar gyflwyno nifer o newidiadau a fydd o fantais i ddinasyddion. Er enghraifft, bydd y cynigion i gyflwyno gwasanaeth 'Dweud eich dweud unwaith' - lle bydd staff y Cyngor yn gyfrifol am gysylltu â holl wasanaethau'r Cyngor ar ran y cwsmer yn y pwynt cyswllt cyntaf er mwyn diweddaru cofnodion ac unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau - yn golygu mai dim ond unwaith y bydd rhaid i'r cwsmer roi gwybodaeth, yn hytrach na gorfod gwneud hynny sawl gwaith i wasanaethau gwahanol mewn lleoliadau gwahanol.

63 Mae'r Cyngor hefyd wedi creu cyfres o ddangosyddion i weld pa mor llwyddiannus y cyflwynodd yr amcan gwella hwn, ac wedi cynnwys tystiolaeth sylfaenol i fesur gwelliannau yn ei erbyn. Mae hyn yn ymwneud â phum maes cyffredinol: nifer y cwynion i'r Ombwdsmon a chanlyniadau'r cwynion; cwynion wedi'u rheoli gan y Cyngor; pa mor fodlon yw cwsmeriaid â'r gwasanaethau; y panel safbwyntiau; a gwaith ymgynghori a gynhaliwyd eisoes.

64 Mae rhai o'r gweithgareddau ategol yn canolbwyntio naill ai ar ddatblygu neu adolygu systemau a phrosesau. Er enghraifft, adolygu sut y mae cwynion yn cael eu derbyn a'u prosesu a datblygu a chytuno ar safonau ymgysylltu â dinasyddion a chanllawiau arfer da. Mae'r ddau ohonynt yn edrych ar ddatblygu systemau mewnol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan gwella, er na fyddant yn cael fawr o effaith ar gwsmeriaid yn unigol.

65 Gwelsom hefyd nad oes gwybodaeth sylfaenol ar gael er mwyn barnu gwelliannau yn nhermau lleihau costau. Mae'r Cyngor wedi dweud bod lleihau costau ei weithgarwch ymgysylltu â chwsmeriaid yn flaenoriaeth allweddol. Mae'n gwybod yn fras beth yw costau trafodion wyneb yn wyneb a thros y ffôn, ond nid yw wedi pennu'r gost gyffredinol, beth yw cost opsiynau amgen, pa arbedion y bydd yn ei greu neu beth fyddai'r effaith ar gwsmeriaid. Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig cynnwys y wybodaeth hon, a'i bod yn rhywbeth y dylai'r Cyngor fynd i'r afael ag ef. Byddwn yn gweld sut mae wedi gwneud hyn yn y flwyddyn nesaf.

66 Er nad yw'n un o amcanion gwella'r Cyngor, un o elfennau ymgysylltiad yw darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu sut maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n bennaf gyfrifol am eu hystod a'u safon, ac maent yn gweithio yn unol â fframwaith a chanllawiau statudol Bwrdd yr Iaith. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith sy'n egluro sut mae'r cynllun wedi cael ei weithredu. Mae hyn yn galluogi Bwrdd yr Iaith i gynnig cyngor ar sut gall y Cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae Bwrdd yr Iaith hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun er mwyn asesu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliant.

67 Cafodd y Cyngor ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith am ei waith adeiladol gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Cafodd defnydd y Cyngor o system Ffynnon i gofnodi data'n ymwneud â'r Gymraeg ei groesawu fel ffordd o brif-ffrydio'r iaith a gwella trefniadau monitro. Sylwodd Bwrdd yr Iaith nad yw gwefan na dogfennau etholaethol y Cyngor yn cydymffurfio'n llwyr â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno cynllun gwella i fynd i'r afael â hyn. Hefyd, er gwaetha'r ffaith ei fod wedi cryfhau'r gweithdrefnau casglu data, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y data perfformiad yn fwy cywir a dibynadwy. Mae'r Cyngor wedi mynd ati i geisio datrys problemau hirsefydlog mewn modd rhagweithiol, fel darparu gwasanaeth Cymraeg yn ei ganolfannau cwsmeriaid yn gyntaf.

68 Roedd 21.1 y cant o bobl dros 3 oed yn siarad Cymraeg yng Nghaerffili yn 2008, felly mae'n un o'r awdurdodau lleol yn y rheng ganol. Mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu a gostwng ers 2001, ac mae wedi bod islaw cyfartaledd Cymru ers 2001. Yn 2009-10, cafodd 11.1 y cant o ddisgyblion eu hasesu fel yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sy'n llai na chyfartaledd Cymru o 19 y cant. Dywedodd y Cyngor fod 9.2 y cant o ddisgyblion wedi'u hasesu yn y Gymraeg yn CA3; o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 16 y cant.

## Amcan gwella – Asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc

69 Roedd adroddiad yr ymchwiliad yn sgil marwolaeth Victoria Climbié yn Lloegr yn cynnwys argymhelliad y dylai prif weithredwyr ac aelodau arweiniol awdurdodau lleol â chyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gwasanaethau plant wedi'u cynnwys yn llawn yn rhestr flaenoriaethau a chynlluniau gweithredol eu hawdurdod. Mae'r pwyslais ar ddiogelu plant a phobl ifanc yn un o flaenoriaethau strategaeth gymunedol y Cyngor a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae hefyd yn amcan gwella priodol yng nghyd-destun blaenoriaeth y Cynllun Gwella Corfforaethol, Adeiladu Ffyrdd Gwell o Fyw.

70 Yn 2010-11 a 2011-12, mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio ar gyflwyno dwy fenter benodol o dan yr amcan gwella hwn, sef:

- datblygu a gweithredu Strategaeth Cymorth i Deuluoedd Gwasanaethau Plant er mwyn cynnig cymorth mwy cyfannol; a
- gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, datblygu Tîm o Amgylch y Plentyn i helpu'r rhai sydd ag anghenion sy'n dod i'r amlwg.

71 Trwy ddatblygu a gweithredu'r ddwy fenter benodol hyn, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod ganddo systemau da ar waith gyda'i bartneriaid i nodi plant a all fod yn agored i niwed neu mewn perygl o niwed, a'i fod yn gallu datblygu asesiadau ac ymyriadau amlasiantaeth i fynd i'r afael â'u hanghenion.

72 Isod, ceir amrywiaeth o gamau gweithredu a mesurau penodol sy'n gysylltiedig â'r ddwy raglen waith hyn. Maent yn cynnwys gweithredu'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd, cyfuno adnoddau rhwng sefydliadau gwahanol a meithrin dulliau newydd o weithio rhwng asiantaethau gwahanol.

73 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion llwyddiant a fydd yn ei alluogi i ddangos gwelliannau i bobl leol. Maent yn cynnwys asesu nifer y plant mewn angen, nifer y plant sydd ar gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn cynnwys nifer y plant sydd wedi'u hailgyfeirio i'r gwasanaeth amddiffyn plant a chyfran y plant sydd mewn gofal 12 mis ar ôl ymyrryd yn eu hachos. Rydym yn credu eu bod yn fesurau da i farnu a fydd plant sydd mewn perygl ac mewn angen yng Nghaerffili ar eu hennill yn sgil gwaith y Cyngor a'i bartneriaid. Mae rhai o'r mesurau llwyddiant eraill yn canolbwyntio ar sefydlu systemau i fonitro cyfraniad ac ymrwymiad partneriaid. Er nad yw'r mesurau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, maent yn weithgareddau pwysig a fydd yn dangos pa mor dda mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd.

74 Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'u profiadau a pha mor dda y cafodd eu hanghenion eu diwallu, ond nid yw wedi dweud sut y mae'n bwriadu gwneud hyn. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hyn ac yn adrodd yn ôl ar ei berfformiad.

75 Yn ddiweddar, enillodd y Cyngor a'i naw cyngor partner yn y De-ddwyrain wobr rhagoriaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cafodd Rhaglen Comisiynu Plant Rhaglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru (SEWIC) ei sefydlu i sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sicrhau mwy o werth am arian, a chynnig rhagor o leoliadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Sefydlwyd Uned Gomisiynu Rhanbarthol ac mae'n dweud ei bod wedi arbed £500,000 mewn costau.

76 Ym mis Medi 2010, cynhaliwyd archwiliad dilynol o wasanaethau diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Gwnaed hyn ar ôl i'r ddwy asiantaeth ystyried Adolygiad Rheoli Annibynnol a gynhaliwyd fel rhan o Adolygiad Achos Difrifol. Roedd yr archwiliad yn rhan o raglen gwaith maes y cytunwyd arni rhwng AGGCC a'r awdurdod lleol mewn ymateb i Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2009-10.

77 Daeth AGGCC i'r casgliad fod y Cyngor wedi gweithio'n galed i gyflwyno'r gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau diogel i blant mewn angen a'r rhai sydd mewn perygl o niwed. Mae wedi gwella trefniadau gweithio gydag asiantaethau partner er mwyn helpu i gyflwyno gwasanaethau effeithiol, ac mae tystiolaeth amlwg fod Bwrdd Diogelu Plant Caerffili yn cydgysylltu a gwella gwasanaethau diogelu yn fwy effeithiol. Mae cefnogaeth wleidyddol o bobl plaid a chefnogaeth cyfarwyddiaethau'r gorfforaeth i'r agenda ddiogelu yn parhau. Mae'r gwasanaethau plant yn cael eu rheoli a'u harwain yn effeithiol, gydag arweiniad clir gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant. Mae mesurau recriwtio a chadw staff sydd wedi'u datblygu'n dda wedi helpu i ddatblygu staff a grŵp rheoli medrus, ymroddgar a mwyfwy profiadol.

78 Nododd yr archwiliad ble'r oedd angen rhagor o welliant, ac mae'r awdurdod yn ymwybodol ohonynt ac yn mynd i'r afael â nhw'n llawn. Y flaenoriaeth yw sicrhau rhagor o gysondeb wrth ymgysylltu â'r heddlu wrth fynychu cyfarfodydd

amddiffyn plant allweddol, trwy'r camau gweithredu sydd eisoes ar waith. Mae angen monitro'r meysydd sydd angen sylw parhaus – sef sicrhau arfer gorau i blant sy'n cyrraedd/gadael yr awdurdod, a chynnal dulliau mwy effeithiol o gydweithio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion – yn y flwyddyn i ddod. Bydd y Cyfarwyddwr a'i staff yn cadw llygad ar y cynnydd wrth gyflwyno'r gwelliannau hyn, ac yn eu hadrodd i'r awdurdod.

## Amcan gwella – Hyrwyddo manteision ffyrdd o fyw iach a gweithgar

79 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'r Fwrdeistref Sirol fynd i'r afael â heriau go sylweddol o ran iechyd y boblogaeth. Yn ôl Arolwg Iechyd Cymru 2008, mae 62 y cant o'r boblogaeth dros eu pwysau neu'n ordew. Mae'r lefel hon yn un o'r uchaf yng Nghymru, ac mae llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 57 y cant. Caerffili sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau yn sgil clefyd coronaidd y galon (CHD) o dan 75 oed hefyd, a'r trydydd nifer uchaf o achosion o ganser yng Nghymru. Roedd nifer amcangyfrifiedig yr unigolion a gafodd eu hatgyfeirio i gael triniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol yng Nghaerffili yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2008-09. Y disgwyliad oes i fenywod Caerffili yn 2006-08 oedd 80.9 oed, sy'n llai na chyfartaledd Cymru o 81.4 oed. Y disgwyliad oes i ddynion Caerffili yn 2006-08 oedd 75.6 oed. Mae hyn hefyd yn is na chyfartaledd Cymru o 77.0 oed.

80 Yn 2010-11, mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno'r amcan gwella hwn trwy gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon a gwella addysg a chyfathrebu trwy ddatblygu sawl rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno'r Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol – Dringo'n Uwch; y Rhaglen Ysgolion Iach; Cynllun y Blynyddoedd Cynnar Iach; a'r Rhaglen Atgyfeirio i Wneud Ymarfer Corff. Trwy'r rhaglenni hyn, mae'r Cyngor am weld gwelliant o ran y nifer sy'n gwneud gweithgareddau hamdden a chynnydd ym mhob math o weithgarwch corfforol. Yn y tymor hir, mae'n rhagweld y bydd y gweithgarwch hwn yn gwella iechyd pobl leol.

81 Sefydlwyd mesurau perfformiad sylfaenol i farnu pa mor dda mae'r Cyngor yn llwyddo i annog pobl i ymuno â'r cynlluniau hyn. Mae rhai ohonynt eisoes wedi llwyddo i ddenu nifer fawr o gyfranwyr. Er enghraifft, mae pob ysgol wedi ymuno â'r rhaglen Ysgolion Iach. Hefyd, gwelsom nad yw'r Cyngor wedi gosod unrhyw dargedau ar gyfer unrhyw ddangosyddion sylfaenol, felly nid yw'n gwbl glir sut mae'r Cyngor yn bwriadu barnu pa mor llwyddiannus yw ei raglenni. Ar ben hyn, penderfynodd y Cyngor beidio â chynnwys meysydd priodol eraill ar gyfer gwella iechyd, fel mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, sy'n destun cydweithredu â phartneriaid mewn strategaethau eraill, megis Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

82 Tra ein bod yn cydnabod nad oes modd mesur yn gyflym y gwelliannau mewn dangosyddion iechyd fel gordewdra a chlefyd coronaidd y galon, rydym yn credu y dylai'r Cyngor fod wedi cynnwys amrywiaeth o fesurau a'r wybodaeth ddiweddaraf am bob dangosydd y mae'n bwriadu ei ddefnyddio i ddangos ei fod wedi cael effaith gadarnhaol yn y dyfodol. Trwy hyn, byddai dinasyddion yn gallu deall pa fanteision hirdymor y mae'r Cyngor yn ceisio'u cyflawni, a beth yw man cychwyn ei holl fesurau. Byddai hefyd yn galluogi pobl leol i wybod effaith gwaith y Cyngor yn y dyfodol, ac felly byddant yn gallu sicrhau ei fod yn atebol.

## Amcan gwella – Sicrhau bod oedolion sydd yn y system gofal cymdeithasol yn gallu byw bywyd llawn, gweithgar ac annibynnol

83 Mae cefnogi oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol i fyw bywydau llawn, gweithgar ac annibynnol yn amcan gwella priodol i'r Cyngor. Mae ganddo gysylltiad amlwg â themâu strategaeth gymunedol y Cyngor sef Adeiladu Ffyrdd Gwell o Fyw a'i Strategaeth Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol.

84 Er bod yr amcan gwella hwn yn eithaf eang, mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio'n benodol ar wella prydlondeb ac ansawdd ei asesiadau o anghenion cleientiaid fel rhan o'i system cynllunio gofal yn 2010-11. Mae ein hadolygiad o wybodaeth yn dangos er fod perfformiad y Cyngor wedi dirywio mewn rhai agweddau dros y 12 mis diwethaf, mae'n dal i fod ymhlith y cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru ran ymateb yn gyflym ac adolygu cynlluniau gofal. Er enghraifft:

- Yn 2008-09, y nifer cyfartalog o ddyddiau gwaith rhwng yr ymholiad cychwynnol a chwblhau'r cynllun gofal, gan gynnwys asesiadau arbenigol, oedd 16.7 diwrnod. Roedd hyn yn golygu mai'r Cyngor hwn berfformiodd orau o blith 22 o gynghorau Cymru. Yn 2009-10 roedd ei berfformiad wedi dirywio i 25 diwrnod, ond o gofio bod cyfartaledd Cymru yn 38 diwrnod, roedd Caerffili felly yn dal i fod y pedwerydd cyngor gorau o ran perfformiad.
- O ran y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith rhwng yr ymholiad cychwynnol a chwblhau'r cynllun gofal, ac eithrio asesiadau arbenigol, 16.31 diwrnod oedd cyfartaledd y Cyngor yn 2008-09. Roedd hwn yn well na chyfartaledd Cymru o 19.72 diwrnod. Yn 2009-10, gostyngodd cyfartaledd y Cyngor i 23 diwrnod, sy'n waeth na chyfartaledd Cymru o 17 diwrnod, a olygai fod y Cyngor yn safle 13eg o ran yr awdurdodau sy'n perfformio orau.
- Gwelwyd gwelliant yng nghanran y cleientiaid â chynlluniau gofal a ddylai fod wedi'u hadolygu, ac a gafodd eu hadolygu, yn ystod y flwyddyn, o 63.11 y cant yn 2008-09 i 89.9 y cant yn 2009-10.
- Gostyngodd nifer y bobl sy'n aros am asesiad, o 338 yn 2008-09 i 227 yn 2009-10. Hefyd, gwellodd cyfran yr asesiadau Gofal Iechyd Parhaus a'r asesiadau iechyd meddwl a broseswd yn brydlon yn ystod y cyfnod hwn.

85 Hyd yn oed gyda pherfformiad cymharol dda yn y dangosyddion hyn, mae'n bwysig asesu'n gywir i sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth gofal cywir cyn gynted â phosibl er mwyn diwallu eu hanghenion penodol a lleihau risg. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gosod amrywiaeth o gamau gweithredu ar gyfer gwella yn 2010-11, gyda phwyslais ar wella prosesau a systemau rheoli a sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir yn ddigon cyflym.

86 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnwys amryw o fesurau sylfaenol y gellir eu defnyddio i farnu gwelliant dros amser. Fodd bynnag, maent yn ymwneud â pha mor gyflym yw'r ymateb a'r niferoedd ar y rhestr aros yn unig. Er bod hon yn wybodaeth bwysig i farnu pa mor gyflym mae'r Cyngor yn ymateb i ddiwallu anghenion y cwsmer, byddai'n well pe bai'r Cyngor wedi cynnwys mesurau sy'n ystyried effaith ei waith a sut y llwyddodd i helpu oedolion agored i niwed i fyw bywydau llawn, gweithgar ac annibynnol. Er enghraifft, llai o oedi cyn trosglwyddo oedi a'r lleihad yn y niferoedd sy'n cael eu derbyn i gartrefi preswyl/nyrsio a derbyniadau brys i'r ysbyty. Yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol, mae'r Cyngor yn

cyfeirio at bwysigrwydd ei waith o ran helpu pobl i fod yn annibynnol, ond nid yw'n nodi'n glir beth fyddai effaith asesiadau gwell. Credwn ei bod hi'n bwysig cynnwys gwybodaeth o'r fath, fel bo'r Cyngor a defnyddwyr gwasanaethau'n gallu barnu faint o welliannau a fu.

87 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydgysylltu gwaith asesu cynghorau gyda'n gwaith ym maes iechyd. Rydym yn ystyried pa mor dda mae'r Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd ledled ardal sy'n cynnwys Caerffili a chynghorau cyfagos. Mae'r cynghorau, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid lleol eraill yn cydweithio i gydgysylltu'r broses o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sy'n agored i niwed. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn gorff gweddol newydd a ddisodlodd y pum Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth. Mae'r berthynas rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum cyngor yn datblygu o hyd wrth i strwythurau a swyddi newydd o fewn Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ddechrau ymsefydlu, ac wrth i drefniadau cydweithio barhau i ddatblygu. Mae ein gwaith yn dal i fynd rhagddo, a byddwn yn adrodd arno yn 2011.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn helpu pobl i ddatblygu?

## Amcan gwella – Gwella lefel sgiliau plant a phobl ifanc

88 Mae cyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor, fel y pwysleisiwyd yn thema'r strategaeth gymunedol, Newid Bywydau, Creu Dyfodol, ac yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Yn ei amcan gwella, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n cael addysg dda a sgiliau perthnasol hefyd yn cael cyfleoedd gwell mewn bywyd i gael swyddi gwell, sydd hefyd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar fywyd o ansawdd well. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyfnod o ddirwasgiad, pan fo cymaint o bobl yn ddi-waith a phobl ifanc yn cael anhawster dod o hyd i swydd.

89 Mae ein hadolygiad o wybodaeth yn dangos mai darlun cymysg sydd gennym o ran pa mor dda mae gwasanaethau'r Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd, ac yn helpu pobl ifanc i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth:

- Y Dangosydd Pwnc Craidd (CSI) yn CA2 yw canran yr holl ddisgyblion CA2 (blwyddyn 6) sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, ac mae'n deillio o ganlyniadau Asesiadau Athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad gan ysgolion. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r CSI yn CA2 wedi cynyddu ers 1999, gyda 75.7 y cant yn ei gyflawni yn 2009-10. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 77.3 y cant, ac yn golygu fod y Cyngor yn yr 16eg safle o blith 22 awdurdod. O ran bodloni'r meincnod disgwyliedig ar gyfer asesiad athrawon Lefel 2, roedd Caerffili yn un o 11 awdurdod lwyddodd i ragori ar hyn.
- Mae'r lefel perfformiad yn CA3 wedi gwella'n raddol yn y blynyddoedd diweddar, gan godi o 49.85 y cant yn 2007-08 i 56 y cant yn 2009-10. Mae hyn yn dal yn is na'r cyfartaledd Cymreig, ac yn golygu fod y Cyngor yn y 19eg safle o blith 22 awdurdod. O ran bodloni'r gymhariaeth meincnodi disgwyliedig ar gyfer asesiad athrawon ar ddiwedd CA3, roedd Caerffili ymhlith 9 awdurdod a fethodd â'i fodloni.
- Roedd 21.9 y cant o oedolion o oedran gweithio Caerffili heb unrhyw gymwysterau yn 2008. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.6 y cant, a dyma'r ganran uchaf yng Nghymru. Yn 2008, roedd gan 18.8 y cant o oedolion oedran gweithio gymwysterau lefel 4+ y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol - sef y perfformiad gwaethaf ond un yng Nghymru.
- Yn 2009-10, y Cyngor oedd â'r nifer uchaf ond un o ddisgyblion wedi'u gwahardd yn barhaol o ysgolion cynradd, a'r seithfed ffigur uchaf o waharddiadau o ysgolion uwchradd. Hefyd, yng Nghaerffili y cofnodwyd y nifer cyfartalog uchaf o ddiwrnodau nad oedd disgyblion a oedd wedi'u gwahardd yn barhaol wedi cael cynnig darpariaeth addysg llawn amser briodol yn ystod 2009-10.
- Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghaerffili wedi gostwng o 8.1 y cant yn 2004 i bump y cant yn 2009.

90 Rydym yn cydnabod nad yw cyfeirio at ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn unig yn cynnig darlun cyflawn o'r ddarpariaeth gwasanaeth ar hyn o bryd na'r holl bwysau sy'n wynebu'r Cyngor o bosibl, ac felly rydym wedi edrych yn fanwl ar ei gynigion ar gyfer gweithredu. Yn 2010-11, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gynnig rhagor o bynciau a chyrsiau mewn ysgolion, personoleiddio a chefnogi dysgu, a helpu gydag elfennau ymarferol fel teithio. Mae'r Cynllun

Gwella Corfforaethol yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu penodol i gyflwyno'r newidiadau hyn, gan gynnwys paratoi Strategaeth Sgiliau 14-19 ar gyfer ysgolion, cynnig dewis ehangach o bynciau o fis Medi 2010 trwy helpu disgyblion i ddilyn cyrsiau mewn ysgolion eraill, a chynyddu nifer yr Hyfforddwyr Dysgu o 25 i 50 er mwyn rhoi cymorth un-i-un gwell i'r myfyrwyr sydd ei angen. Credwn fod y camau amrywiol hyn yn briodol gan eu bod yn rhoi pwyslais ar wella sgiliau a chanfod ffyrdd o ymgysylltu â phobl ifanc i wella eu cyrhaeddiad addysgol.

91 Mae'r Cyngor yn gwbl glir ynglŷn â'r gwelliannau y mae'n dymuno'u gweld, yn y tymor byr a'r tymor hir, ac mae wedi gosod amrywiaeth dda o fesurau i farnu pa mor llwyddiannus y mae'n cyflawni'r amcan gwella. Mae hefyd wedi cynnwys ei berfformiad cyfredol fel sylfaen a thargedau ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ddangos pa mor dda mae'n ei wneud yn y dyfodol, ac a lwyddodd i gyflawni'r hyn yr oedd wedi'i obeithio. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i bobl leol farnu a yw pethau wedi gwella ai peidio.

92 Rydym yn credu bod y mesurau y mae'r Cyngor yn bwriadu adrodd arnynt yn cynnwys pethau sy'n bwysig i bobl ifanc Caerffili, ac a fydd yn gwneud gwahaniaeth iddynt. Er enghraifft, lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael ysgol heb gymwysterau, a gwella cyrhaeddiad addysgol a chymwysterau disgyblion 14-19 oed. Fodd bynnag, nid yw wedi pennu pa lefel o welliannau yr hoffai'i chyflawni ar gyfer ei holl ddangosyddion, ac mae hwn yn faes i'w ddatblygu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Hefyd, nid yw wedi cynnwys camau gweithredu (neu fesurau) ar gyfer lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd. Roeddem wedi disgwyl gweld hyn wedi'i gynnwys, o gofio bod Caerffili ymhlith yr awdurdodau a berfformiodd waethaf yng Nghymru. Pan fyddwn yn cyflwyno'n hadroddiad y flwyddyn nesaf, rydym yn gobeithio ymateb yn fanylach ar y modd mae Caerffili yn helpu plant a phobl i feithrin sgiliau.

93 Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn arolygu i ba raddau y mae cynghorau'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Mae gan Estyn raglen reolaidd o arolygiadau o wasanaethau cyn-ysgol fel meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid. Rydym yn cydweithio ag Estyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwasanaethau hyn er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu.

94 Cynhaliodd Estyn arolwg o ansawdd a safon y ddarpariaeth i ddisgyblion a myfyrwyr 14-19 oed yng Nghaerffili ddechrau 2009. Daeth arolygwyr ar draws llawer o bethau da yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i rai 14-19 oed yn yr ardal, gan gynnwys:

- bod perfformiad dysgwyr Caerffili wedi gwella yn CA4, er ei fod ymhlith yr awdurdodau sy'n perfformio waethaf yng Nghymru;
- bod dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion a cholegau sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch yn perfformio'n dda; ac
- o ran dysgu seiliedig ar waith, mae lefelau cyrhaeddiad y dysgwyr yn dda ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynd ymlaen i astudio i raglenni uwch.

95 Cyflwynodd Estyn nifer o argymhellion er mwyn gwella safonau ac ansawdd addysg, ac mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw. Bydd Estyn yn asesu faint o gynnydd a fu yn y dyfodol.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo?

96 Ddiwedd Rhagfyr 2009, amcangyfrifwyd bod 70,400 o drigolion Caerffili yn gweithio. O'r rhain, roedd tua 51,000 yn gweithio yn y sector preifat a 18,600 yn y sector cyhoeddus. Caerffili sydd â'r chweched nifer uchaf yng Nghymru o drigolion sy'n gweithio mewn gwasanaethau sector cyhoeddus.

97 Yn 2009, roedd trigolion Caerffili yn ennill cyfartaledd o £500 yr wythnos. Dyma'r 11fed ffigur uchaf ymhlith 22 awdurdod lleol Cymru. Rhwng 1999 a 2009, fe symudodd enillion Caerffili o fod yn gyfartal â'r cyfartaledd Cymreig i ddisgyn islaw'r cyfartaledd Cymreig. Mae'r Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI) yn mesur faint o incwm gwario sydd ar gael i gartrefi. Yn 2007, £11,677 oedd GDHI y pen yng Nghaerffili sef y cydradd isaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Rhwng 1999 a 2007, roedd GDHI y pen yng Nghaerffili islaw'r cyfartaledd Cymreig, ac mae'r bwlch wedi cynyddu dros y cyfnod hwn.

## Amcan gwella – Cynnal amrywiaeth o gyfleoedd gwaith i drigolion

98 Mae cynyddu nifer y swyddi yn weithgarwch priodol a phwysig i Gaerffili ganolbwyntio arno yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae ffigurau diweithdra Caerffili wedi codi'n sylweddol yn ystod y dirwasgiad. Ym mis Awst 2010, roedd gan Gaerffili'r trydydd nifer absoliwt uchaf o hawlwyr, gyda 5,247 o'r trigolion wedi'u cofnodi fel rhai sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith. Mae hyn yn gyfystyr â 4.8 y cant o'r boblogaeth 16-64 oed, sef y pedwerydd ffigur uchaf ar gyfer cynghorau Cymru. Mae diweithdra yng Nghaerffili yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU.

99 Mae'r Cyngor wedi gosod cyfres o gamau gweithredu dan ddwy raglen waith eang, sef:

- cefnogi busnesau yn enwedig busnesau bach a chanolig; a
- helpu i gynyddu cyfleoedd gwaith trwy weithio mewn partneriaeth ar raglenni sy'n helpu i ddarparu'r sgiliau ac addysg angenrheidiol i oedolion a phobl ifanc fel y gallant gael gwaith.

100 Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn cyflwyno cynigion manwl ynglyn â sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella cyfleoedd gwaith i ddinasyddion. Maent yn cynnwys parhau i gyflwyno rhaglenni fel Pontydd i Waith, yn ogystal â chynigion i ddatblygu cynlluniau newydd sy'n targedu grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd cael swydd, fel rhieni sengl neu bobl dros 50 oed. Hefyd, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio gwybodaeth a dulliau marchnata'n fwy effeithiol i gefnogi'i benderfyniadau ac annog cyfleoedd gwaith newydd, yn ogystal â gwella'i systemau a phrosesau mewnol. Ar y cyfan, rydym yn credu y bydd yr holl weithgareddau amrywiol a gynigir gan y Cyngor yn ei helpu i gyflawni'r amcan gwella hwn.

101 Mae'r amcan gwella yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth sylfaenol dda a mesurau llwyddiant arfaethedig, a fydd yn galluogi'r Cyngor a phobl leol i farnu pa mor dda mae'n gwneud ei waith. Er enghraifft, nifer y swyddi a grëwyd yn y fwrdeistref sirol, nifer y busnesau newydd a gafodd gymorth i ymsefydlu, cyrraedd targedau creu swyddi dan Gronfa Swyddi'r Dyfodol a lleihau'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau. Er bod perfformiad mewn nifer o ddangosyddion wedi'i gynnwys, nid yw'r Cyngor wedi gosod targedau sy'n amlinellu'r hyn y mae'n gobeithio'i gyflawni.

102 Rydym yn credu bod gallu'r Cyngor i gyflwyno rhai o'r mentrau swyddi yn cynnwys rhywfaint o risg. Mae'r Cyngor wedi dweud yn glir bod angen buddsoddiad i greu swyddi newydd a chynnal rhai sy'n bodoli eisoes. Ond oherwydd bod llawer o brosiectau cyflogaeth yn dibynnu ar gymorth ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru, nid oes sicrwydd pendant bod modd cyflwyno'r cynigion hyn. Nid yw'r Cyngor yn gwybod ar hyn o bryd a oes ganddo'r adnoddau i gyflwyno'r holl brosiectau, ac mae'n rhagweld y bydd yn gorfod lleihau'r gwariant refeniw a chyfalaf. Hefyd, mae'n glir na fydd cytundeb ar ganlyniad yr ystyriaethau hyn tan fis Chwefror 2011, ac y bydd rhaid hepgor rhai amcanion gwella o bosibl.

## Amcan gwella – Lleihau ein hôl troed carbon a gwella ein cynaliadwyedd

103 Mae cynaliadwyedd yn cael ei ystyried yn bwysig yng Nghaerffili, ac mae'n flaenoriaeth allweddol yn strategaeth gymunedol y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi hen ymrwymo i faterion cynaliadwyedd, a chymeradwyodd ei bolisi cynaliadwyedd cyntaf ym 1997. Mae wedi parhau i adeiladu ar y sylfaen hon, gan arwain at gyhoeddi strategaeth datblygu cynaliadwy, Living Better, Using Less, yn 2008. Yn 2010-11, mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio ar amcan 3 strategaeth Living Better, Using Less sy'n trafod defnyddio llai o adnoddau, a lleihau ei ôl troed carbon yn benodol.

104 Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda wrth leihau carbon, o gymharu â chynghorau eraill Cymru. Caerffili berfformiodd orau o blith 22 o gynghorau Cymru, o ran y gostyngiad canrannol mewn nwyon carbon deuocsid sy'n gollwng o adeiladau cyhoeddus annomestig yn 2009-10, gyda sgôr o 33.33 y cant. Roedd hyn 15 gwaith yn well na chyfartaledd Cymru o 2.2 y cant. Hefyd, Caerffili oedd â'r allyriadau $CO_2$ isaf fesul pen o'r boblogaeth yn 2007 o blith holl gynghorau Cymru[4].

105 Mae'r Cyngor wedi nodi camau gweithredu penodol i'w cyflawni yn 2010-11. Rydym yn credu bod rhai ohonynt yn syniad da, ac y byddant yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon y fwrdeistref. Er enghraifft, sicrhau nawdd ariannol dan raglen *Arbed*[5] i osod paneli solar dŵr poeth a phaneli solar ffotofoltäig mewn tai, a sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn defnyddio 4.5 y cant yn llai o ynni bob blwyddyn.

106 Rydym hefyd yn teimlo bod rhai o'r cynigion yn canolbwyntio ar faterion prosesau, ac nad yw hi bob amser yn amlwg pa fanteision ddaw ohonynt gan ei bod yn anodd mesur canlyniad ac effaith y camau hyn, er enghraifft, cefnogi gwasanaethau i sicrhau eu bod yn ystyried materion effeithiolrwydd ynni, lleihau gwastraff, trafnidiaeth gynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau. Wrth edrych ymlaen, credwn fod angen i'r Cyngor nodi'n gliriach sut y mae'n bwriadu dangos canlyniad ac effaith ei holl gamau gweithredu.

4 Data gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

5 Sefydlwyd rhaglen Arbed yn 2009 gyda'r nod o fuddsoddi £30 miliwn i sicrhau bod tai cymdeithasol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn defnyddio ynni'n fwy effeithiol, trwy ôl-osod mesurau arloesol mewn cartrefi yn cynnwys inswleiddio waliau solet a chyflwyno technolegau adnewyddadwy fel paneli solar a phympiau gwres.

107 Mae'r Cyngor wedi sefydlu amryw o fesurau er mwyn barnu pa mor dda mae'n gwneud ei waith. Rydym yn credu bod rhai ohonynt yn dda, ac y byddant yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos a yw wedi gwneud gwahaniaeth wrth gyflwyno'r amcan gwella. Mae cynnwys mesurau perfformiad sy'n ystyried newidiadau cadarnhaol i lefelau defnyddio ynni, cynyddu sgorau SAP[6] adeiladau, ac ailgylchu mwy o bethau yn ffyn mesur da. Er na fydd rhai o'r cynigion eraill yn galluogi'r Cyngor i farnu faint o welliant a gafwyd, er enghraifft addysgu staff y cyngor a'r trigolion ar faterion cynaliadwyedd, ar y cyfan rydym yn credu bod y Cyngor wedi cynnwys y pethau iawn i fesur eu perfformiad.

## Amcan gwella – Sicrhau bod Caerffili yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo

108 Mae sicrhau bod trigolion Caerffili yn ddiogel yn fater pwysig i'r Cyngor a'i bartneriaid gan ei fod yn ymateb yn uniongyrchol i ganlyniadau'r ymgynghoriadau a'r arolygon a gynhaliwyd ymhlith pobl yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau thema Adeiladu Ffyrdd o Fyw Gwell y strategaeth gymunedol a gwaith y bartneriaeth diogelwch cymunedol.

109 Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent a gwasanaethau eraill i geisio canfod pa mor ddiogel yw ei gymunedau, ac i'w gwneud yn fwy diogel. Hefyd, mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â sefydliadau eraill fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent i ddeall y materion sy'n peri problemau yn yr ardaloedd lleol ac er mwyn creu cymunedau cryfach. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ystadegau am faint o droseddau a chwynion a adroddwyd i'r heddlu a'r Cyngor. Mae rhywfaint yn ymwneud â pha mor ddiogel mae pobl yn teimlo. Mae materion eraill sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl fwynhau byw yn y gymuned yn gymhleth iawn ac yn anodd eu mesur.

110 Mae adolygiad o'r data troseddu diweddaraf yn dangos mai 74.38 fesul 1,000 o'r boblogaeth yw cyfradd droseddau Caerffili. Y gyfran uchaf o droseddau yw difrod troseddol (27 y cant) a thrais yn erbyn unigolyn (21 y cant). Mae cyfradd droseddau Caerffili yn debyg i gyfartaledd Cymru. Mae tri-chwarter y ffigur yr oedd saith mlynedd yn ôl, ond mae'r ffigur ar gyfer 2008-09 yn uwch na 2007-08. Caerffili oedd y pedwerydd cyngor uchaf o ran troseddu treisgar gydag anaf yn 2008-09, ac yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru. Mae hyder pobl leol yng ngallu'r heddlu a'r awdurdodau lleol i ymdrin â phryderon lleol yn debyg i'r ffigurau ar gyfer ardaloedd heddluoedd eraill Cymru. Targedau'r Swyddfa Gartref ar gyfer ardal Heddlu Gwent yw 52 y cant erbyn Mawrth 2011 a 57 y cant erbyn Mawrth 2012. Mae lefelau hyder pobl yn Heddlu Gwent wedi cynyddu o lai na 40 y cant 2008 i oddeutu 45 y cant yn 2009. Yn 2009-10, derbyniodd y Cyngor 6,772 o geisiadau am wasanaeth ar faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn amrywio o niwsans lefel isel fel tipio anghyfreithlon, i achosion difrifol o drais.

111 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cytuno ar amrywiaeth o gamau gweithredu i gyflwyno'r amcan gwella hwn yn 2010-11. Rydym wedi adolygu'r cynigion hyn, ac yn credu bod y Cyngor yn canolbwyntio ar wella meysydd pwysig. Er enghraifft, mae'n datblygu rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol fel pwyllgorau Gwarchod

6 The Government's recommended system for energy rating of dwellings. The Standard Assessment Procedure is used for calculating the SAP rating, on a scale from 1 to 120, based on the annual energy costs for space and water heating.

y Gymdogaeth i fynd i'r afael â niwsans amgylcheddol, a defnyddio'i Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol ar batrolau rhagweithiol ac mewn ymateb i flaenoriaethau'r cymunedau. Rydym yn credu eu bod yn fentrau da a fydd yn galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a fydd yn creu gwelliannau i ddinasyddion Caerffili.

112 Mae rhai o'r camau gweithredu eraill yn bwriadu gwella prosesau partneriaethau, er enghraifft, adolygu PACT (hyrwyddo a gwella partneriaethau a chymunedau gyda'i gilydd) a chynnwys gwybodaeth yng nghylchlythyrau cymunedol Heddlu Gwent.

113 Hefyd, buom yn ystyried cynigion y Cyngor ar sut i fesur effaith ei waith a pha wybodaeth y bydd yn ei defnyddio i farnu pa mor lwyddiannus oedd ei waith. Gwelsom gynigion da, fel cynnal arolygon i ganfod pa mor ddiogel mae pobl leol yn teimlo ac asesu pa mor hyderus yw'r cyhoedd. Hefyd, mae'n beth da bod y Cyngor yn cyflwyno'r lefelau perfformiad cyfredol yn glir trwy ddweud pa mor llwyddiannus yw partneriaid ar hyn o bryd.

114 Mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn arolygu gwaith gyda throseddwyr ifanc. Ym mis Medi 2010, cyhoeddwyd adroddiad ganddynt ar waith troseddau ieuenctid yn ardal Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili. Bu'r tîm arolygu'n archwilio ansawdd y gwaith a wnaed i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc, diogelu'r cyhoedd trwy leihau'r perygl o niwed i eraill, a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Mae'r tîm yn asesu a oes angen gwneud gwelliannau ym mhob un o'r meysydd hyn - naill ai gwelliannau bach, cymedrol, sylweddol neu eithafol yn y dyfodol agos. Penderfynodd y tîm bod angen gwneud gwelliant sylweddol o ran diogelu a'r perygl o niwed, a bod angen gwelliant cymedrol o ran aildroseddu. Ar y cyfan, daeth y tîm i'r casgliad fod gan wasanaeth Blaenau Gwent a Chaerffili staff ymroddedig sy'n gallu ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd, a bod asiantaethau partner yn rhoi cymorth da i reolwyr achos. Er hynny, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod cynlluniau ac asesiadau'n rhai amserol ac o ansawdd da. Cyflwynodd y tîm argymhellion ar gyfer gwella, yn enwedig wrth asesu anghenion troseddwyr a chynllunio sut i ymateb iddynt. Mae angen i'r gwasanaeth baratoi cynllun gweithredu.

# Beth ddylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei wneud?

115 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na fyddem yn dod o hyd i bethau sydd angen eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os ydym yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddynt fynd i'r afael â nhw a byddwn yn dilyn yr hyn sy'n digwydd.

116 Rydym yn gwneud sawl cynnig ar gyfer gwelliant, a dylai'r Cyngor ystyried ein cynigion i'w helpu i wella:

**Dyma'r cynigion a wnaethom yn ein gwaith cynharach**

- gorffen a chyhoeddi amcanion gwella, sy'n fersiwn drafft ar hyn o bryd, a diweddaru'r Cynllun Gwella Corfforaethol i nodi'n glir weledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol;
- gwella systemau i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol drwy:
  - sicrhau bod Cynlluniau Gwella Gwasanaethau yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau gwella corfforaethol y Cyngor; a
  - sicrhau bod targedau CAMPUS yn cael eu pennu sy'n canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol.
- gwella'r broses o reoli perfformiad drwy:
  - lunio ystod eang o ddangosyddion i fesur gwelliant sy'n canolbwyntio'n glir ar reoli gwasanaethau gweithredol;
  - gwerthuso perfformiad i nodi'r meysydd a'r cyfleoedd ar gyfer gwella;
  - sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau angenrheidiol i sicrhau bod eu staff yn atebol, a mynd i'r afael yn effeithiol â meysydd perfformiad gwael.

**Dyma'r cynigion a wnaethom yn ein gwaith cynharach (parhâd)**

- sicrhau bod cynlluniau a gwasanaethau yn gyson er mwyn cefnogi'r rhaglen wella drwy:
  - gytuno ar ddewisiadau a datblygu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb;
  - cynnal ymarferiad cynllunio'r gweithlu traws-sirol i bennu anghenion staffio yn y dyfodol, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus;
  - gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd partneriaethau i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol;
  - cryfhau ei drefniadau rheoli risg yn sgil yr holl heriau sy'n dod i'r amlwg;
  - datblygu a mabwysiadu strategaeth rheoli asedau i ddiwallu anghenion y Cyngor yn y dyfodol;
  - gwella cysondeb o ran sut mae'r cynlluniau'n adlewyrchu'r modd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion ac yn ymateb i'w hanghenion nhw;
  - cwblhau ei adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol a phenderfynu sut i'w hymgorffori ledled y sefydliad; a

**Dyma’r cynigion a wnaethom yn ein gwaith cynharach (parhâd)**

- chreu systemau rheoli Adnoddau Dynol cadarn i gefnogi’r newidiadau diwylliannol sy’n digwydd o fewn y Cyngor.

- hyfforddi a helpu’r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod ganddo drefniadau i ofalu fod ei swyddogaethau’n gwella’n barhaus.

**Cynigion newydd**

**Dylai’r Cyngor wneud y canlynol**

- cyhoeddi ei amcanion gwella yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad;
- ymgynghori â’i amrywiaeth lawn o randdeiliaid ynglŷn â’r amcanion gwella a rhoi cyfleoedd priodol i ddinasyddion ddylanwadu a llywio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol;
- pennu mesurau penodol i farnu a gyflawnwyd yr amcanion gwella sy’n canolbwyntio ar sut mae’r Cyngor yn perfformio nawr, beth yw ei dargedau, sut mae’n cymharu ag eraill, y gost am gyflawni’r amcanion a sut y bydd yn dangos a yw pobl Caerffili ar eu hennill yn y diwedd;
- pennu safonau gofynnol ar gyfer cyflawni safonau ym mhob maes gwasanaeth;
- gosod blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu, yng nghyd-destun llai o adnoddau;
- sicrhau bod canlyniadau gwaith cynllunio ariannol yn y tymor canolig yn nodi ac yn pennu’r adnoddau sydd eu hangen a’u bod ar gael i gyflawni’r amcanion gwella.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[7]

7 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Aelod Cynulliad Caerffili yw Jeff Cuthbert o'r Blaid Lafur. Mae rhai o'n dinasyddion yn byw yn etholaethau Irene James, Islwyn, Llafur a Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni, Llafur.

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain De Cymru yw:

- Mohammad Asghar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- Veronica German, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- William Graham, Plaid Geidwadol Cymru

Aelodau Seneddol Caerffili yw:

- Wayne David, Caerffili
- Dai Havard, Merthyr Tudful a Rhymni
- Christopher Evans, Islwyn. Oll yn cynrychioli'r Blaid Lafur

Mae gan Gaerffili 73 o Gynghorwyr sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau a sut i ddefnyddio adnoddau. Mae Aelodau'r Cyngor yn perthyn i'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- 32 o Blaid Cymru
- 32 o'r Blaid Lafur
- 9 Annibynnol

Gwariant refeniw gros y Cyngor yn 2008-2009 oedd £393 miliwn, sef £2,282 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno, fe wariodd y Cyngor £54 miliwn ar eitemau cyfalaf. Y dreth gyngor band D gyfartalog yng Nghaerffili yn 2009-10 oedd £1,056.52 y flwyddyn. Bydd yn cynyddu 3.03 y cant i £1,088.56 y flwyddyn yn 2010-11.
Mae 89 y cant o gartrefi Caerffili ym mandiau treth gyngor A i D.

**Tîm Rheoli Corfforaethol**

Anthony O'Sullivan yw Prif Weithredwr Caerffili. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Gynghorydd Polisi'r Cyngor.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys:

- Nigel Barnett, Dirprwy Brif Weithredwr

- Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sandra Aspinall, Cyfarwyddwr Addysg

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'i wasanaethau. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag amcanion gwella penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud er mwyn gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn mor fuan â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn:
Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystradmynach, Hengoed, CF82 7PG.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod prif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010:

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) yn adeiladu ar drefniadau sydd yn gyffredinol gadarn ac yn cydnabod yr angen i gryfhau ei gynlluniau a'i berfformiad mewn rhai meysydd allweddol er mwyn cwrdd â'r her o gyflawni gwelliannau yn y dyfodol.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae trefniadau'r Cyngor wedi arwain at welliannau yn y gorffennol, ond mae'n wynebu risgiau a heriau sylweddol wrth symud ymlaen i'r dyfodol.

- Mae'r Cyngor wedi sicrhau rhai gwelliannau yn y gorffennol.
- Mae'r Cyngor yn ymwybodol o heriau ariannol y dyfodol ac wedi cydnabod bod angen gwella'i drefniadau er mwyn ymateb iddynt.
- Mae angen i'r Cyngor roi pwyslais o'r newydd ar ei flaenoriaethau a gwasanaethau allweddol yng nghyd-destun datblygu'i gynllun ariannol tymor canolig, a sicrhau ei fod yn cysoni'i strategaethau a threfniadau er mwyn helpu i'w cyflawni.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Er bod rhai o drefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant, mae lle i ddatblygu eraill ymhellach er mwyn sicrhau'r newid ar y raddfa ofynnol o fewn yr amserlen ofynnol.

- Mae'r Cyngor yn dangos elfennau o arweinyddiaeth dda, ac yn gweithio mewn partneriaeth a rheoli cyllidebau'n dda – ond mae angen gwneud rhagor o welliannau yn sgil yr her sydd o'i flaen, yn enwedig mewn rhai meysydd o lywodraethu, ymgysylltu â'r dinasyddion, cynllunio a rheoli perfformiad.
- Mae'r Cyngor yn wynebu cryn dipyn o her ar fater cynllunio'r gweithlu.

I weld yr adroddiad llawn ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad y tu mewn i glawr cefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cydymffurfio â'r gofynion adrodd ar wella perfformiad ac ariannol ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos**

1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

2 Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

3 Ar 29 Medi 2010 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, yn cadarnhau eu bod yn adlewyrchiad cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

4 Cafodd cyfrifon drafft o ansawdd da eu cyflwyno'n brydlon inni. Nodwyd y materion canlynol yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon:

- Yn ystod yr archwiliad, gwelwyd bod y datganiadau ariannol yn cynnwys gwall perthnasol. Digwyddodd hyn ar ôl methu â sylwi ar wall yn y broses prisio gwerth tai cyngor. Yn dilyn fy ngwaith archwilio, argymhellais y dylai'r Cyngor gael gweithdrefnau i adolygu pa mor rhesymol yw gwybodaeth cyn ei chynnwys yn y datganiadau ariannol.
- Cafodd ffigyrau'r flwyddyn flaenorol eu hailddatgan er mwyn ailddosbarthu swm perthnasol sy'n ymwneud ag ailbrisio asedau sefydlog yn 2008-09.
- Gweithredwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig ar gyfer y PFI yn gywir ac mae cynnydd yn cael ei wneud wrth baratoi i weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11.
- Paratowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

5 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar archwilio'r cyfrifon a'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Bydd prif ganfyddiadau'r gwaith olaf yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, rwy'n tynnu'ch sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau effeithiol i reoli'r gyllideb ar waith ac mae'r Cyngor wrthi'n datblygu cynllun ariannol tymor canolig diwygiedig, ar ôl derbyn y setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol, ond hyd yma, mae wedi dangos hanes llwyddiannus o sicrhau arbedion a chyflwyno cyllideb fantoledig. Ceir rhagor am hyn yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

6 Mae Cynllun Gwella 2010-11 y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn rhoi golwg gytbwys o'i berfformiad yn 2009-10. Er hynny, er bod cyfeiriad at asesiad corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac esboniad o'r Mesur Llywodraeth Leol, nid oes gwybodaeth am gasgliadau'r asesiad corfforaethol neu'r gwaith arolygu a gynhaliwyd gan Estyn nag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

7 Nid wyf wedi gallu cwblhau'r archwiliad gan fod cwestiynau/gwrthwynebiadau nad ydynt wedi'u datrys wedi'u codi gan etholwyr.

8 Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 yr un fath â'r ffi a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Lynn Hine (PricewaterhouseCoopers LLP) ar gyfer ac ar ran:

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion gwella yn ei Gynllun Cymunedol sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerffili.gov.uk. Yr amcanion yw:

- gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â'n dinasyddion a gwrando ar farn ein cwsmeriaid am ein gwasanaethau;
- sicrhau bod Caerffili yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo;
- cynnal amrywiaeth o gyfleoedd gwaith i'n trigolion;
- gwella lefel sgiliau plant a phobl ifanc;
- hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach a gweithgar;
- sicrhau bod oedolion sydd yn y system gofal cymdeithasol yn gallu byw bywyd llawn, gweithgar ac annibynnol;
- gofalu fod asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc; a
- lleihau ein hôl troed carbon a gwella ein cynaliadwyedd.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o un o'r ffynonellau canlynol oni nodir yn wahanol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefan a chynllluniau gwella'r Awdurdod ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol